

Cristnogion ac eglwysi yn ymgyrchu dros gyfnod Cynhadledd y G7

Yn dilyn Cynhadledd y G7, mae Aled Davies yn crynhoi rhai pigion o'r gynhadledd, ac yn adrodd ar ymdrechion eglwysi lleol yng Nghernyw i fynegi eu barn am faterion newid hinsawdd a diogelu iechyd pobl y byd.

Cynhaliwyd uwchgynhadledd y G7 eleni ar 11–13 Mehefin ym Mae Carbis, Cernyw. Ymhlith y rhai oedd yn bresennol yr oedd yr Arlywydd Justin Trudeau o Ganada, yr Arlywydd Emmanuel Macron o Ffrainc, y Canghellor Angela Merkel o'r Almaen, y Prif Weinidog Mario Draghi o'r Eidal, y Prif Weinidog Yoshihide Suga o Japan, y Prif Weinidog Boris Johnson ac Arlywydd America, Joe Biden.

Casgliad o arweinwyr llywodraethau rhai o genhedloedd cyfoethocaf y byd yw'r G7 ('Group of Seven'). Uwchgynhadledd 2021 oedd y 47fed cyfarfod i gael ei gynnal, lle cyfarfu prif weinidogion ac arlywyddion gwledydd y G7 i drafod problemau sy'n wynebu'r byd – gan gynnwys materion economaidd, argyfyngau iechyd a'r argyfwng hinsawdd.

Yn y gorffennol, mae uwchgynadledau G7 wedi canolbwyntio ar faterion yn amrywio o ddileu dyledion ar gyfer gwledydd sy'n datblygu, argyfyngau iechyd fel HIV ac AIDS a bygythiadau i ddiogelwch byd-eang. Mae'r G7 yn gyfarfod pwysig yn fyd-eang oherwydd mai penaethiaid y llywodraethau sy'n mynychu'r uwchgynhadledd yw arweinwyr rhai o wledydd cyfoethocaf a mwyaf pwerus y byd. Roedd y cyfarfod hwn hefyd yn un o ddau gynulliad o arweinwyr y byd fydd y Deyrnas Unedig yn eu cynnal eleni, ochr yn ochr â sgysiaid hinsawdd COP26 ym mis Tachwedd. Mae Boris Johnson wedi dweud ei fod yn awyddus i ddefnyddio sgysiaid hinsawdd



G7 a COP26 i 'adeiladu'n ôl yn well' o bandemig y Coronafeirws a 'chreu dyfodol mwy gwyrdd, mwy llewyrchus'.

Mae'r nodiadau cryno ar gasgliadau'r G7 yn cynnwys dau benderfyniad allweddol a wnaed yno.

Mewn perthynas â Covid-19, penderfynwyd: 'rheoli a dileu effaith pandemig Covid-19, gan baratoi ar gyfer y dyfodol trwy drefnu ymdrech ryngwladol sylweddol i frechu'r byd cyfan, trwy gael cymaint o frechlynnau diogel i gynifer o bobl â phosibl mor gyflym â phosibl'. Mae cyfanswm ymrwymadau'r G7 ers dechrau'r pandemig yn adduned i ddarparu dros ddau biliwn o ddosau o'r brechlyn i wledydd tlawd y byd.

Gwnaed datganiad hefyd ynghylch sefyllfa'r newid yn yr hinsawdd, a gwnaed yr adduned ganlynol: 'ein bod yn amddiffyn ein planed drwy gefnogi chwyldro gwyrdd sy'n creu swyddi, yn torri allyriadau (*emissions*) ac yn ceisio cyfyngu'r cynnydd mewn tymheredd byd-eang i 1.5 gradd. Rydym yn ymrwymo i sicrhau sero net erbyn 2050 fan bellaf, gan haneru ein hallyriadau ar y cyd dros y ddau ddegawd hyd at 2030; ac i warchod neu amddiffyn o leiaf 30 y cant

o'n tir a'n cefnforoedd erbyn 2030. Rydym yn cydnabod ein dyletswydd i ddiogelu'r blaned ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.'



Llais yr eglwys leol

Roedd Cristnogion ac eglwysi yng nghanol bwrlwm y cyfarfodydd hyn, gan greu cysylltiadau â'r arweinwyr gwleidyddol a'r gymuned leol. Mewn datganiad, dywedodd Cymorth Cristnogol: 'Fe wnaeth yr eglwysi leisio'u barn yn glir. Pan gyhoeddwyd yn gynharach eleni fod y G7 yn dod i Fae Carbis, anogwyd eglwysi ac ysgolion ledled y sir i wneud "Tonnau Gobaith", a sicrhau eu bod yn cael sylw ar y newyddion lleol a chenedlaethol.

'Roedd y gweithgaredd hwn yn cynnwys mynd â'r neges mor agos at yr arweinwyr â phosibl. Fe aed ati i addurno eglwys y [\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)

Cristnogion ac eglwys yn ymgyrchu dros gyfnod Cynhadledd y G7

(parhad o dudalen 1)

plwyf ym Mae Carbis â “thonnau gobaith” a baneri Cymorth Cristnogol, a chafwyd cryn sylw ar y cyfryngau i hyn. Cafwyd cyfle hefyd i drefnu bod y ficer lleol a gweinidog yr Eglwys Fethodistaidd ym Mae Carbis yn arwain gwylnos ar y traeth yn yr union le yr oedd yr arweinwyr yn cyfarfod. Ailadroddwyd hyn gan grwpiau Cymorth Cristnogol lleol eraill – a gynhaliodd eu gwylnosau eu hunain i gofio'r rhai a gollwyd i Covid a galw am weithredu i wella iechyd a ffyniant i'n byd.'

Ar y dydd Sadwrn, cynhaliwyd cyfarfod eglwysig yn eglwys gadeiriol Truro gyda chadeirydd Cymorth Cristnogol, Rowan Williams, yn annerch y dorf dros Zoom am argyfyngau newid hinsawdd, dyled fyd-eang a'r argyfwng ledled y byd yn sgil pandemig Covid-19. Roedd yr eglwys gadeiriol hefyd yn gartref i un o uchafbwyntiau mwyaf cyffrous y penwythnos, sef cychwyn taith gyfnewid 'Rhwydwaith Hinsawdd Cristnogion Ifanc', gyda phobl ifanc dros Brydain yn cynnal taith gerdded o Gernyw i Glasgow, lle cynhelir cynhadledd bwysig COP 26 ym mis Tachwedd eleni (<https://www.yccn.uk/>). Fe wnaeth yr esgob lleol, yr Aelod Seneddol lleol a chynrychiolwyr eglwysig ym Mae Carbis eu hanfon ar eu taith gyda gwasanaeth oedd yn cynnwys negeseuon ar gyfiawnder a phwysigrwyd ymdrechu i ddiogelu newid hinsawdd gan gynrychiolwyr o Ynysoedd y Philipinas a Kenya. Maent bellach wedi dechrau cerdded i Glasgow ar gyfer y gynhadledd bwysig ym mis Tachwedd.

Gobeithio hefyd y bydd modd i ninnau yma yng Nghymru baratoi ar gyfer y gynhadledd hon, mewn gweddi a thrwy ymgyrchu gan roi pwysau ar wleidyddion ac arweinwyr byd. Wrth i 26 o arweinwyr o wledydd ledled y byd ddod at ei gilydd yn Glasgow, dyma gyfle gwirioneddol i ni roi pwysau i sicrhau dyfodol gwell i'n daear a'i thrigolion.



'Taid Bangor': dylanwad R. Tudur Jones arnaf


Dim ond dwy oed oeddwn i pan fu farw Taid Bangor – y Parchedig Brifathro R. Tudur Jones – ym mis Gorffennaf 1998. Er mai taid wnaeth fy meddyddio yn Ebeneser, Caerdydd, ym 1995, dim ond un neu ddau atgof plentyn sydd gennyf ohono. Gan fy mod mor ifanc pan fu Taid farw, ni chefais gyfle i ddod i'w adnabod.

Er hynny, ers i mi brofi tröedigaeth a dod yn Gristion yng nghanol fy ardegau, yr wyf wedi dod i nabod Taid drwy gyfrwng ei lenyddiaeth. Pan oeddwn yn Gristion ifanc yn y chweched dosbarth, deuthum o hyd i gopi o *Ffydd yn y Ffau* (1973) yn stydi fy nhad. Yn y casgliad hwn o ysgrifau gwleidyddol, diwinyddol a llenyddol fy nhaid, cefais fy nghyflwyno iddo fel arweinydd Cristnogol eofn a gymhwysai ei ddiwinyddiaeth Galfinaidd goeth at heriau cymdeithasol a gwleidyddol yr ugeinfed ganrif.

Yna, yn ystod fy mlwyddyn gyntaf fel myfyriwr ym Mhrifysgol Aberystwyth, darllenais ei werslyfr poblogaidd, *Yr Ysbryd Glân* (1972). Yn nhudalennau'r llyfr hwn, cefais fy nghyflwyno i'm taid fel diwinydd praff a gymerai'r Beibl – Gair awdurdodol Duw – o ddifrif. Yn ddiweddarach, cefais hefyd flas ar ddarlenn *Hanes Annibynwyr Cymru* (1966) yn ogystal â *Ffydd ac Argyfwng Cenedl* (2 gyf., 1981–2), a ymddangosai ar restrau darllen y brifysgol. Rhoddodd y cyfrolau hyn gyflwyniad imi o'm taid fel hanesydd manwl yr Annibynwyr a gredai'n hyderus fod Duw – yn Dad, Mab ac Ysbryd Glân – yn sofran dros hanes y ddynoliaeth.

Fy hoff ysgrif gan fy nhaid, fodd bynnag, yw'r erthygl honno a gyhoeddodd o dan y teitl 'Rhyddiaith Grefyddol y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg' yn *Y Traddodiad Rhyddiaith* (1970). Wrth i'm taid ddadansoddi natur diwinyddiaeth Ddiwygiedig y Cymry yn y traethawd hwn, cefais fy nghyflwyno iddo fel lladmerydd Calfiniaeth Cymru. Yn wir, yr ysgrif hon – yn ogystal â'r diweddar Barchedig Euros Wyn Jones – wnaeth fy ysbrydoli i astudio gweithiau diwinyddol George Lewis (1763–1822) fel testun ymchwil fy ngradd meistr.

Yn ddi-os, roedd y cyfrolau hyn yn falm llesol i Gristion o fyfyrwr yn ail ddegawd



yr unfed ganrif ar hugain. Mewn oes ôl-Gristnogol lle'r oedd syniadau dyneiddiol ac ôl-fodernaidd yn cael dylanwad cynyddol ar fyfyrwyr, roedd ysgrifau a chyfrolau R. Tudur Jones yn chwarae awyr iach – er iddynt gael eu hysgrifennu ddegawdau yn ôl mewn Cymru go wahanol.

Trwy ddarllen gweithiau fy nhaid, cefais fy atgoffa o wirionedd, cysondeb a grym Cristnogaeth uniongred, ynghyd â gwacter, anghysondeb a gwendid y syniadau dyneiddiol hynny sydd bellach wedi cael dylanwad mor drwm ar feddylfryd y Cymry. Pan oedd llawer o'm cwrpas yn haeru mai llyfr amherthnasol a hen ffasiwn oedd y Beibl, cefais fy ysbrydoli gan hyder sicr fy nhaid yn y Beibl fel Gair digyfnawid Duw. Trwy'r Gair pwerus a dibynadwy hwn mae Duw yn parhau i siarad â dynion a merched heddiw: 'gallwn ddarllen y Beibl yn hyderus. Nid yw'n methu yn y bwriad a ymgorfforodd Duw ynddo. Gallwn ymddiried ein heneidiau i'w dystiolaeth' (*Yr Ysbryd Glân*, t. 46).

Mewn gair, felly, er na chefais gyfle i ddod i adnabod Taid Bangor, cafodd ddylanwad pwysig arnaf drwy'r cyfrolau a'r ysgrifau hynny a adawodd ar ei ôl. Yn wir, bu ei weithiau yn gyfrwng i'm haeddfedu fel Cristion ac yn fodd i gadarnhau fy ffydd yn fy Arglwydd a'm Gwaredwr, Iesu Grist. Yr wyf yn awr yn cael y fraint o wasanaethu Duw fel gweinidog Eglwys Seion, Aberystwyth: eglwys lle bu taid hefyd yn weinidog arni rhwng 1948 a 1950. Diolch i Dduw amdano ac am ei ddefnyddio er clod i'w enw Ef yng Nghymru.

Gwilym Tudur
Aberystwyth

Coda


Yn dilyn y siom o ohirio Gŵyl Coda 2020, nid unwaith ond ddwywaith, mae cymuned Coda wedi trefnu cyfres o ddigwyddiadau ar-lein ar gyfer dod at ein gilydd i ysbrydoli ac annog ein gilydd mewn ffydd a gweithredu.

Cynhaliwyd y cyntaf o'r sesiynau gyda'r nos hyn ddydd Iau, 10 Mehefin, ac roedd yn cynnwys tri chyfraniad byr fel sail i drafodaethau ar ethos Coda a'i amcanion amrywiol, a welir yn y logo ar y dde. Cafwyd fideos cerddorol rhwng y gwahanol gyfraniadau.

Buom yn edrych ar sut y gall ymgysylltu ac actiffaeth edrych yn ymarferol, fel rhwydwaith ac yn ein cyd-destunau lleol; sut y gall creadigrwydd ysbrydoli, herio ac ysgogi; ac yn olaf sut y gallwn ysbrydoli ffydd a gweithredu yn ein heglwys, yn ein cymuned a thu hwnt.

Y dyddiadau ar gyfer cynulladau yn y dyfodol yw 22 Medi 2021, 3 Rhagfyr 2021, 15 Mawrth 2022 a 13 Mehefin 2022. Mae croeso i bawb.

*Delyth Wyn
Swyddog Dysgu a Datblygu Cymru
Yr Eglwys Fethodistaidd*



Newyddion Cwm Cyron

Daeth cynrychiolwyr o dair eglwys i gynnal oedfa Gymraeg gyntaf Anghydfurfwyr Aberdâr ers dechrau'r clo mawr. Cynhaliwyd hi yng Nghanolfan Penderyn ddydd Sul, 6 Mehefin 2021. Daeth aelodau Siloa, Aberdâr; Bethesda, Abercwmboi; a Siloam, Penderyn, ynghyd i addoli mewn ystafell a ddefnyddir gan y Mudiad Meithrin gan amlaf.

'Blaenoriaethu' oedd thema'r oedfa gymun. Bu raid i bawb flaenoriaethu yn ystod cyfnod y Cofid a gweld beth oedd yn wirioneddol bwysig yn ein bywydau. Mewn gweddi, diolchwyd i'r bobl roedden ni wedi eu cymryd yn ganiataol yn ystod y pandemig - nyrsys, doctoriaid a gweithwyr mewn cartrefi hen pobl.

Cafwyd sgwrs dros ddysglaid a bisgeden wedi'r cyfarfod. Diolchwn i staff a threfnwyr y ganolfan am eu parodrwydd i ddarparu o'u hadnoddau. Cynhelir yr oedfa gymun nesaf ddydd Sul, 4 Gorffennaf, am 10.30 a.m.

Gwyn Morgan

Capel Isa, Nefyn

John Thomas ac Elwyn Huws yn derbyn rhodd gan y Parch R O Roberts ar ran aelodau Capel Isa, Nefyn. Diolch yn fawr iawn iddynt am eu gwasanaeth fel blaenoriaid am 30 o flynyddoedd, a gobeithio bod yna lawer o flynyddoedd eto i ddod.



Cristion

Roedd nos Wener, 18 Mehefin, yn gyfle i nodi dechrau pennod newydd i gylchgrawn *Cristion* wrth i ddim newydd o olygyddion ymgymryd â'r gwaith. Pan fydd hynny'n digwydd, bob tair blynedd fel rheol, cynhelir lansiad i nodi'r bennod newydd, ond eleni, yn wahanol i'r arfer, rhaid fu ei gynnal dros Zoom.

Ymunodd nifer fawr o bobl â'r lansiad rhithiol, a bu'r ymatebion yn dilyn y digwyddiad yn gadarnhaol iawn. Dechreuwyd y cyfarfod gyda defosiwn dan ofal y cyn-olygydd, sef y Parchedig Owain Llyr Evans. Yna, cafwyd cyfle i glywed Siân Meinir, ynghyd â'i nith Mirain Angharad, yn canu ei fersiwn ei hun o'r dôn 'Antwerp' ar eiriau'r diweddar Euryng Ogwen, 'Caredigrwydd'.

Yn dilyn y defosiwn, cyflwynwyd y tri golygydd newydd, sef Carwyn a Nerys Siddall, a Dylan Rhys, a rhannu ychydig o'u cefndir. Cafwyd cyflwyniad fideo yn rhannu eu gweledigaeth a'u gobeithion, ac fel rhan o'r fideo cafwyd cipolwg ar gynnwys y rhifyn cyntaf. Dyma ran o gyflwyniad y golygyddion:

Cychwyn y daith ...

Wrth gychwyn ar eich taith drwy'r cylchgrawn, cewch eich rhoi yn y cywair priodol ym mhob rhifyn gyda 'Munud i Feddwl' wedi ei baratoi gan unigolion gwahanol. Yn y rhifyn cyntaf, y chwiorydd sy'n byw yn y lleiandy yn Nolgellau sy'n ein harwain, gan ystyried llwybrau gweddi, a chyfeillgarwch Iesu inni ar y daith hwno.

Erthyglau amrywiol ...

Mae rhai tudalennau wedi eu neilltuo ar gyfer erthygl benodol, ond gan gyfranwyr gwahanol. Er enghraifft, bydd tudalen ddwbl dan y pennawd 'Ffydd ar Daith' fydd yn cynnig cyfle inni gael ein tywys ar bererindod gwahanol gan unigolion amrywiol o ran cefndir a thraddodiad. Bydd tudalen arall o dan y pennawd 'Fy Ngweinidogaeth' sy'n ein cyflwyno i unigolion sy'n cyflawni gweinidogaeth o fath gwahanol, gan roi cipolwg inni ar y weinidogaeth arbennig honno. Hefyd, byddwn yn gwahodd bardd gwahanol bob tro i greu cerdd yn ymateb i thema'r rhifyn.

O'r chwith i'r dde: Nerys Siddall, Carwyn Siddall a Dylan Rhys



Colofnwyr gwadd ...

Mae tri cholofnydd wedi eu gwahodd i gyfrannu i bob rhifyn, sef y Parchedig Ddr Jenny Hurd, fydd yn ysgrifennu erthygl yn ymateb i'r thema; Dr Hefin Jones yn ysgrifennu dan y pennawd 'Y Beibl o dan y Meicrosgop'; a'r Dr Gwilym Tudur yn cynnig adolygiadau o lyfrau, erthyglau a blogiau amrywiol.

Gair o'r Galon ...

Yng nghanol pob rhifyn ceir tudalen ddwbl o dan y pennawd 'Gair o'r Galon', lle bydd Carwyn yn holi unigolyn am ei ffydd, a sut mae ei ffydd wedi dylanwadu ar ei brofiadau a'i daith bywyd, ac yn parhau i wneud hynny. I gyd-fynd â'r erthygl hon, gellir gwyllo rhan o'r cyfweiliad ar ffurf fideo drwy fynd i'r gwefan: www.cristion.net

Cristion Bychan ...

Yn ogystal â chroesair i'r oedolion, bydd Alyson Evans yn paratoi tudalen ar gyfer y plant ym mhob rhifyn, sef 'Cristion Bychan' - yn cynnwys cyflwyniad, darlleniad, gweddi fer, gweithgareddau amrywiol a chystadleuaeth.

Yn dilyn y cyflwyniad, cafwyd cyfle, dan arweiniad Dylan Rhys, i weld y wefan ar ei newydd wedd a gwyllo rhan o'r cyfweiliad 'Gair o'r Galon' - y tro hwn, gyda Dr Prydwen Elfed-Owens. Yna, tynnwyd ein sylw at gyfrif Trydar ([@cristion_net](https://twitter.com/cristion_net)), Facebook ([@cylchgrawnCristion](https://www.facebook.com/cylchgrawnCristion)) ac Instagram ([cristion_net](https://www.instagram.com/cristion_net)) y cylchgrawn, a sut fydd y cyfryngau hyn yn rhannu'r newyddion diweddaraf wrth inni baratoi pob rhifyn.

I gloi'r noson, cafwyd diolchiadau a gweddi gan Nerys Siddall ac yna perfformiad o emyn arall o waith Euryng Ogwen gan Siân Meinir.

Yn sicr, bu'r noson yn hynod o lwyddiannus, a bellach mae rhifyn Gorffennaf/Awst o *Cristion* ar gael yn eich siop leol, neu drwy danysgrifio ar ein gwefan. Os yw eglwysi neu ofalaethau am danysgrifio, gellir gwneud hynny, a derbyn pris gostyngol yn cynnwys cludiant (gweler y manylion yn y cylchgrawn neu ar ein gwefan). Hyderir y bydd y cylchgrawn yn apelio at ystod eang o bobl, ac yn cynnwys rhywbeth at ddant pawb.

Y Newidiadau a'r Digyfnwid

Wrth gyflwyno rhaglen Andrew Marr, fore Sul, 20 Mehefin, yn sgil y ffaith fod y cynllun i godi cyfyngiadau Covid yn Lloegr ar yr 21ain wedi ei ddrysau, a bod y Ceidwadwyr wedi colli sedd ddiogel Chesham & Amersham – dywedodd Nick Robinson mai'r unig beth y gallem ddweud gyda sicrwydd y dyddiau hyn yw bod bywyd yn gwbl ansicr.

Ry'n ni i gyd yn fwy ymwybodol nag erioed ein bod mewn byd cyfnewidiol. Roedd eitem newyddion ganol Mehefin yn adrodd am rybudd gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd (CCC) fod yn rhaid i Gymru ymbaratoi ar gyfer newid hinsawdd er mwyn arbed bywyd a bywoliaeth, oherwydd y bygythiad i bobl, i rwydwaith mewnol cymdeithas ac i fywyd gwyllt.

Mae Covid-19 wedi dod â newidiadau anferth i gymysgu cymdeithasol, patrymau gweithio ac iechyd corff a meddwl. Ar ben hyn, ry'n ni i gyd yn newid wrth dyfu, aeddfedu a heneiddio, a gall bywyd newid mewn amrantiad oherwydd yr economi, damwain neu ryw ddigwyddiad annisgwyl arall.

Yna, mae bydolwg cymdeithas yn newid o genhedlaeth i genhedlaeth. Yn ddiweddar mae cofgolofnau i bobl gafodd fri un adeg wedi cael eu dymchwel. Mae'r hyn oedd yn ddrwg bellach yn dda, ac i'r gwrthwyneb hefyd. Mae hyd yn oed gweddi mewn rhai amgylchiadau yn cael ei ystyried yn beth drwg. Sdim rhyfedd bod H F Lyte wedi canu:

Newid a darfod y mae'r byd a'i fri:
O'r Digyfnwid, aros gyda mi.

Mor hyfryd yw gwybod a gallu dweud bod Un sydd yn ddigyfnwid, sef ein Duw ni, Yahweh – y Tad, y Mab (sy'n Dduw-ddyn) a'r Ysbryd Glân.

Pan ofynnodd Moses i'r ARGLWYDD beth oedd ei enw, yr ateb a gafodd oedd 'Ydwyf yr hyn ydwyf'. Mae hyn yn dangos bod Duw yn Un na ellir ei newid ac nad yw'n newid.

Yn Efengyl Ioan mae Iesu'n adleisio hyn wrth ddisgrifio'i hunan â'r geiriau 'Myfi yw ...' Mae'n dweud wrth y wraig o Samaria mai fe yw'r Meseia, Eneiniog Duw: i fod yn broffwyd, yn fynegiant

llawn a therfynol o Air Duw. Ei air ef yw'r Testament Newydd – yn adeiladu ar yr Hen Destament. Mae'n offeiriad i'w gyflwyno'i hun yn aberth iawinol dros bechod ei bobl ac yn frenin i goncro diafol, pechod a marwolaeth. Mae'n teyrnasu dros bawb a phopeth nawr yn y nef, ac mae ganddo awdurdod i arwain ei bobl i fywyd tragwyddol, at y dŵr bywiol, mewnol i'r enaid, sy'n rhoi bodlonrwydd llawn, wrth ddod at Iesu, y Ffynnon.

Fe yw **bara'r bywyd** – ac o'i fwyta, sef wrth gredu ynddo, mae'r enaid yn profi llawnder parhaus o heddwch, cariad, llawenydd a gobaith byw ar ein taith trwy anialwch y byd hwn â'i holl anawsterau.

Fe yw **goleuni'r byd** – ac o wrando arno ac ymddiried ynddo, cawn gerdded yn y goleuni yn hytrach na'r tywyllwch. Ynddo fe cawn oleuni clir ar berson Duw a bwriad Duw ar ein cyfer. Mae'n sanctaidd ac eto'n llawn trugaredd a thosturi. Cawn weld ein hunain hefyd, fel rhai colledig, pechaduriaid, rhai y mae ef wedi dod yn benodol i'w hachub a bod yn Feddyg iddynt trwy ddiodeff, marw ac atgyfodi.


Fe yw'r **drws** i mewn i gorlan teulu Duw a theyrnas Dduw. Fe yw'r **Bugail Da** sydd wedi rhoi ei einioes dros ei ddefaid, sydd wedi eu prynu, eu nabod wrth eu henw, sy'n eu harwain trwy borfa a dŵr ei Air a'i Ysbryd, ac na fydd byth yn eu gollwng o'i afael.

Fe yw'r **Atgyfodiad a'r Bywyd** – yn rhoi i ni fywyd o berthynas â Duw na all farw byth. Hefyd, bydd yn ein hatgyfodi â chorff gogoneddus, anllygredig, newydd pan ddaw yr ail waith.

Fe yw'r **wir winwydden** – ac o fod ynddo fe trwy ffydd achubol, mae'n addo ein gwneud yn ffrwythlon, trwy waith y Tad yn ein tocio, trwy amryw brofedigaethau a threialon ein bywyd, a thrwy waith yr Ysbryd Glân yn gweithio allan air yr Arglwydd yn ein bywyd.

Wrth i ni geisio ymdopi â bywyd mewn byd mor gyfnewidiol, diolch am Iesu, yr un ddoe, heddiw ac yn dragywydd; boed i ni bwysu a glynu fwyfwy wrtho, a dweud amdano wrth gymdeithas sy'n cael ei thafu o don i don gan holl newidiadau byd a bywyd.

John Treharne
Llwynhendy



Llun: John Moeses Bauan, Unsplash

Yr Ysbryd Glân – R Tudur Jones A oes Ysbryd Glân?



Dros yr haf fe fyddwn yn cyflwyno penodau o glasur R Tudur Jones, *Yr Ysbryd Glân*, a fu'n llyfr gosod i ddsbarthiadau oedolion yr Ysgol Sul ar gyfer 1972.

Cyn inni fwrw ati i astudio'r pwnc yn fanwl, da o beth fydd holi beth yw ein syniad am yr Ysbryd Glân. Byddwn yn aml yn dechrau oedfa drwy ganu emyn John Hughes, Pontrobert, 'O anfon di yr Ysbryd Glân' neu efallai emyn Dafydd Wiliam, Llandeilo-fach, 'O Dduw, rho im dy Ysbryd'. Am beth yn union yr ydym yn gofyn wrth ganu emynau fel hyn? Petai Duw'n gwranddo ar ein deisyfiad ac yn anfon ei Ysbryd, beth fyddai'n digwydd? Ym mha ffordd y mae oedfa gyda'r Ysbryd Glân yn wahanol i oedfa hebddo?

Dia y byddai llawer ohonom yn ei chael yn anodd ateb y cwestiynau hyn. Posibl y byddai rhai ohonom yn ymesgusodi trwy ddweud nad oes neb erioed wedi esbonio inni beth yw gwaith yr Ysbryd Glân na sut y mae adnabod effeithiau ei bresenoldeb. Ac yn wir ni bu'r Ysbryd Glân a'i waith yn bwnc poblogaidd gan bregethwyr ers blynnyddoedd, a pheidiodd darlithiau ar bynciau mawr yr athrawiaeth Gristnogol â bod yn dderbyniol gan gynulleidfaoedd mewn eglwysi. I rai ohonom drachefn, y mae'r Ysbryd Glân yn rhywbeth sy'n perthyn yn arbennig i rai sectau cynhyrfus, neu'n rym sy'n dod i'r golwg yn awr ac yn y man. Clywsom sôn am Evan Roberts a'r Diwygiad ac fel y byddai pobl yr adeg honno'n aros am oriau yn y capeli i ganu a gweddio o dan ddylanwad yr Ysbryd. Ond dyna'r cwbl. Nid ydym yn siŵr iawn beth ddigwyddodd i'r Ysbryd Glân wedyn. Mewn gair, yr ydym mewn cryn ddryswch meddwl.

Y mae stori am bobl debyg yn llyfr yr Actau. Pan ymwelodd Paul ag Effesus yr ail dro, daeth ar draws deuddeg o Gristnogion. O leiaf, 'disgyblion' yw enw Luc arnynt (Actau 19:1). Gofynnodd yr Apostol iddynt, 'A dderbyniosoch chiwi yr

Ysbryd Glân er pan gredasoch?' Yr oedd eu hateb yn syfrdanol: 'Ni chawsom ni gymaint â chlywed a oes Ysbryd Glân.' Mewn un fersiwn gynnar a phwysig – y testun Gorllewinol – mae'r ateb yn darllen, 'Ni chlywsom a yw pobl yn derbyn yr Ysbryd Glân.' Yr un yw'r ergyd i'n pwrpas ni. Mae'n amlwg fod Paul yn eu hystyried yn gredinwyr oherwydd nid yw'n amau dilysrwydd eu cred yn Iesu Grist. Ac eto, nid oeddynt yn gallu dweud wrtho eu bod wedi derbyn yr Ysbryd Glân. Er eu bod yn awyddus i broffesu'r ffydd Gristnogol, diffygiol oedd eu crap arni. Peth naturiol iawn oedd i Paul godi'i glustiau o glywed hyn ac ymroi ati i'w holi'n fanylach.

Gofynnodd i ddechrau am eu bedydd. Pa fath fedydd a weinyddwyd iddynt? Eu hateb yn syml oedd, 'Bedydd loan'. Cymerodd yr Apostol yr ateb hwn fel ei fan cychwyn. Esboniodd fod dau beth i'w cofio am fedydd loan. Yn gyntaf, nid oedd loan yn bedyddio pobl heb iddynt edifarhau am eu pechodau. Mae'n siŵr fod y disgyblion yn Effesus wedi edifarhau, fel yr oedd loan yn gorchymyn, cyn eu bedyddio.

Ond yr oedd ail beth, meddai Paul, i'w gofio am fedydd loan, sef ei fod yn baratoad ar gyfer dyfodiad Iesu Grist. Byddai loan wrth fedyddio'n arfer dweud 'wrth y bobl am gredu yn yr hwn oedd yn dyfod ar ei ôl ef, hynny yw, sef yng Nghrist Iesu' (Actau 19:4). Yn ei Efengyl esboniodd Luc eisoes y byddai loan yn arfer dweud, 'Myfi yn ddiau ydwyf yn eich bedyddio chiwi â dŵfr: ond y mae un cryfach na mi yn dyfod ... a'ch bedyddia chiwi â'r Ysbryd Glân, ac â than' (Luc 3:16 = Mathew 3:11). Nid oedd angen felly i Luc ailadrodd y dywedriad wrth fynd dros hanes credinwyr Effesus, yn arbennig gan ei fod, yn Actau 1:5, wedi

croniclo dywedriad y Crist Atgyfodedig yn cadarnhau proffwydoliaeth loan: 'loan yn ddiau a fedyddiodd â dŵfr, ond chiwi a fedyddir â'r Ysbryd Glân, cyn nemor o ddyddiau.' Mae'n siŵr fod Paul wedi dyfynnu'r geiriau hyn wrth hyfforddi disgyblion Effesus. Beth bynnag, dyma eu bedyddio eto, y tro hwn 'yn enw'r Arglwydd Iesu. Ac wedi i Paul ddodi ei ddwylo arnynt, yr Ysbryd Glân a ddaeth arnynt' (Actau 19:6). A dyna sut y ffurfiwyd cnewyllyn eglwys enwog Effesus.

Mae'n anodd ymatal rhag gofyn o ble y cafodd y bobl hyn eu Cristnogaeth i ddechrau. Nid oes ateb sicr yn bosibl ond mae'n demtasiwn i'w chysylltu â gweinidogaeth Apolos ddysgedig yn y ddinas. Er ei ddysg a'i frwdfrydedd, nid oedd wedi deall 'ond bedydd loan yn unig' (Actau 18:25) nes i Acwila a Phriscila'n ddistaw bach ei hyfforddi'n fanylach. Efallai'n wir ei fod eisoes wedi cynnull dyrnoid o ddisgyblion cyn iddo dderbyn goleuni pellach gan Acwila a'i briod, ac mai nodwedd y cylch oedd ei anwybodaeth am dywalltiad yr Ysbryd Glân.

Y peth sy'n bwysig yn y stori yw fod Paul yn ystyried eu Cristnogaeth yn ddiffygiol am nad oeddynt wedi derbyn yr Ysbryd Glân. Yr oedd eu gwybodaeth am Iesu Grist yn annigonol. Yn wir, sut gallai eu hadnabyddiaeth o'r Arglwydd Iesu fod yn ddim ond diffygiol oni bai eu bod wedi'u hyfforddi am y cysylltiad rhyngddo Ef a'r Ysbryd Glân? Ac nid yn unig gwybod am hynny fel athrawiaeth foel ond cyfrannu'n uniongyrchol o'r tywalltiad gasol.

Erys y stori hon yn rhybudd i ninnau. Nid yw'n amhriodol gofyn cwestiwn yr Apostol i Gristnogion yr ugeinfed ganrif [a'r unfed ganrif ar hugain]: 'A dderbyniosoch chiwi yr Ysbryd Glân er pan gredasoch?' Yng Nghymru bu tuedd amlwg i anghofio pwysigrwydd gwaith yr Ysbryd. Ambell dro cymerwn yn ganiataol fod popeth a wneir yn unol â rheolau sefydlog ein henwad neu ein heglwys yn gyfan gwbl ac yn ddi-os o dan fendith yr Ysbryd Glân. Dro arall, cymerir yn ganiataol fod rhyw gynnwrff teimladol crefyddol neu naws bach hyfryd mewn oedfa yn brofion diymwad fod yr Ysbryd Glân yn bresennol.

Ond y peth gwaelodol yw nid fod yr Ysbryd Glân yn enw arall ar ein gweithredoedd neu'n teimladau ni, ond ei fod yn hytrach yn Dduw gyda ni. A threulir gweddill y llyfr hwn i ddangos beth y mae hynny'n ei olygu.

Darlleniad: Actau 19:1–7.

Ffydd a Diwylliant

Perthyn

Dwi'n lecio newid. Mae'n braf bod yn ôl, ond mae'n rhaid dweud, dwi'n lecio newid.

Dwi'n lecio gwneud pethau gwahanol, neu wneud yr un pethau mewn ffordd wahanol. Dwi'n lecio gweld pethau'n symud. I mi, mae'n werth mentro symud cam yn hytrach nag aros yn fy unfan, hyd yn oed os oes peryg fod hwnnw'n gam i'r cyfeiriad anghywir. Mae wastad modd symud yn ôl, yn does?

Mae symud yn cymryd ymdrech ond yn rhoi egni i rywun hefyd. Dyna eironi pob ymarfer corff: mae ymdrech fawr yn cynyddu lefelau egni rhywun yn ogystal. Mae hynny'n fy ngwneud yn greadur anniddig a diamynedd pan fo pethau'n ddisymud.

Dyna pam, os ydw i'n onest, fod yna elfen o gyffro yn perthyn i'r clo cyntaf. Tra'n cydnabod difrifoldeb yr argyfwng yr oedden ni'n ei wynebu yng ngwanwyn 2020, ac er gwaethaf yr oriau gwaith gwirion, yr addysgu o adref a'r dysgu byw ar bennau ein gilydd, mewn rhyw ffordd ryfedd, roeddwn i'n mwynhau. Roedd yna newydd-deb ac adrenalin yn perthyn i'r sefyllfa. Roedd hi'n braf gwthio'r ffiniau a dysgu pethau newydd.

Roedd o'n destun balchder ein bod ni fel eglwys, yn aelodau o bob oed, wedi llwyddo i ddygymod â'r dechnoleg newydd, wedi llwyddo i groesawu cyfeillion o Fôn i Fynwy ac o bedwar ban byd i'n plith. Roedd o'n wahanol, roedd o'n hwyl. Roedd pethau'n symud.

Ond eto, dwi'n edrych ymlaen at fynd yn ôl. Mynd yn ôl i gwmni pobl. I brofi'r cemistri hwnnw, y fferemonau hynny nad ydyn nhw'n treiddio trwy'r sgrin. Edrych ymlaen at weld ffrindiau yn y cnawd, yn enwedig y ffrindiau roeddwn i'n eu gweld yn achlysurol fel aelodau o deulu'r eglwys. Mae rhywun wedi trefnu erbyn hyn i weld ei deulu a'i ffrindiau agosaf, ond mae hiraeth rhyfedd am y bobl yr oedd rhywun ddim ond yn eu gweld o dro i dro. Dwi hyd yn oed yn edrych ymlaen at weld y bobl hynny dwi'n llai hoff ohonynt nhw ... gobeithio fod pobl yn teimlo 'run peth amdana i!



Socratea exorrhiza – y goeden sy'n cerdded

Dwi'n edrych ymlaen at sêd galed ac oglea polish.

Efallai ein bod ni wedi bod dan glo mor hir nes bod mynd yn ôl yn newydd.

Ond fyddwn ni ddim yn mynd yn ôl i'r union fan. Bydd y drws cefn ar agor a'r sgrin tu blaen yn llawn o wynebau newydd a chyfarwydd.

Fe fûm i'n ddigon ffodus i dreulio ychydig o amser yn yr Amazon. Ymhlith y myrdd o bethau ecsotig a gyflwynodd y tywysydd i ni yr oedd coeden oedd yn cerdded (*Socratea exorrhiza*). Llwyddai hon, meddai, yn araf ond yn gyson, i symud drwy daflu ei gwreiddiau i gyfeiriad y goleuni. Ysywaeth, myth oedd y stori honno, ond fel pob myth mae elfen o wirionedd sy'n werth cydio ynddo.


Wrth fynd yn ôl, fwy na heb i'r un lle, onid y wers bwysigaf i ni i gyd ydy i werthfawrogi ein gwreiddiau tra'n dal ati i symud, yn araf a chyson, i gyfeiriad y goleuni? Ac weithiau, efallai, gawn ni garlamu am sbel, i fodloni pobl ddiamynedd fel fi.

Rocet Arwel Jones
Aberystwyth

Y diwedd, y dechrau a bywyd

Iesu ei hunan, yn ei berson, yw'r 'eschatos', y diwedd, yn union fel [mai ef] oedd y dechreuad. Nid athrawiaeth mo'r 'Atgyfodiad' bellach: y mae ganddo wyneb ac enw. Iesu ei hun yw presenoldeb y bywyd sy'n rhodd gan Dduw y tu hwnt i farwolaeth.

Lesslie Newbigin



Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Croeso adre!

Gweddi

'Tyrd atom ni, O Grëwr pob goleuni, tro di ein nos yn ddydd', a dangos i ni olud Crist yn fodd i fyw. Amen.

Darlleniad

Eseciel 2:1-5

Emyn 276 - 'O'r nef y daeth ...'

Darlleniad

Marc 6:1-13

Myfyrdod

Nid cylchgrawn yn llawn o'r newyddion diwedddara am y 'selébs' mo *Cenn@d*. A chlywyd, hyd yn hyn, ddim un hanes ar ein tudalennau am berson cyffredin a ddaeth yn 'seléb' enwog ar y cyfryngau ac a gefnodd ar ei bobl, ei fro, ei deulu. Hir y parhau hynny!

Gwrthod

Y gwrthwyneb i hynny sy'n cael ei adrodd gan Marc yn ein darlleniad heddiw. Dychmygwch Iesu, y pregethwr carismataidd teithiol, yn dychwelyd i'w gartref. Yn hytrach nag ymateb iddo a'i groesawu â breichiau agored, fel y gwnaeth sawl un a ddaeth at Iesu i'w geisio, ymateb mewn anghrediniaeth a wnaeth ei bobl ei hun.

Nid y Geraseniaid oedd wedi gweld 'Lleng' a'i ddemoniaid yn cael ei iacháu ac a blediodd iddo adael eu bro oedd y rhain. Ond pobl oedd wedi ei adnabod o'i ieuenticid ac a oedd rywsut yn parhau i fethu ei adnabod. Y tu ôl i'r cyfarwydd, dinod, cuddiai gogoniant y nef.

Cymdeithas

Wrth iddo fynd ar ei daith roedd y rhai a ddewiswyd i fod 'gydag ef' ar ddechrau ei weinidogaeth, sef ei 'ddisgyblion yn ei ganlyn'. Cyn popeth arall, cyn iddynt wynebu heriau fyddai'n galw am hunanberth a dioddefaint, cyn iddynt fynd 'i'r holl fyd', roedd y disgyblion yn cael eu nodweddu fel y rhai oedd yn y lle cyntaf 'yn ei ganlyn'. Yr un deuddeg ag a alwyd ato oedd y rhai a gomisiynwyd wrth iddo 'ddechrau eu hanfon allan bob yn ddau'. (adn 7)

Cymuned mewn cymdeithas â'i gilydd, yng nghwmni Iesu, yw ei eglwys. Cwmni mewn cymdeithas ydym pan gawn ein hanfon i fod yn dystion i'n Harglwydd.

Ymateb

Dywed Marc wrthym mai 'syndod' oedd yn nodweddu ymateb pobl Nasareth.

Mae'r gair 'syndod' yn cyfleu rhywun sydd mewn sioc. Torf oedd yn dioddef o fath o gyfergyd (*concussion*) oeddynt, yn ôl Marc. Nid oedd ganddynt allu i brosesu mawredd yr hwn a lefarodd y bore Saboth hwnnw yn y synagog. Yn ôl y gair, roedd tarddiad awdurdod ei eiriau'n dramgwydd iddynt, heb sôn am ei ddoethineb a'i weithredoedd rhyfeddol.

Cyn hyn mae Marc wedi nodi bod torfeydd wedi cael eu 'syfrdanu' gan ei ddysgeidiaeth, ei weithredoedd a'i haeriadau. Roedd gan ei ddysgeidiaeth 'awdurdod' na feddai athrawon eraill (1:27). Yn wir, dro arall roedd y gynulleidfa'n 'synnu ac yn gogoneddu Duw' am iddo faddau ac iacháu claf o'r parlys (2:12).

Sgandal

Efallai fod papurau newydd sâl yn hoffi creu ac adrodd storïau am y 'sgandal' ddiweddaraf. Sgandal yw newyddion sy'n achosi i rywun syrthio neu gywilyddio o'i herwydd.

'Sgandal' yw'r gair mae Marc yn ei ddefnyddio i ddisgrifio ymateb y bobl. Sgandal yn yr iaith Roeg yw 'tramgwydd', trap, rhaff ar draws llwybr, pwll cuddiedig y syrthiwn iddo, rhywbeth sy'n peri i ni faglu. Tramgwydd ydyw.

Ond nid ei awdurdod, ei ddysgeidiaeth na'i weithredoedd achosodd y 'tramgwydd'. Ef ei hun oedd y tramgwydd (adn 3). Wedi'r cyfan, 'hwn yw'r saer', meddant, ac roedd ei deulu'n adnabyddus hefyd.

Hyd heddiw, mae geiriau Iesu'n parhau i'n 'synnu'. Hyd heddiw, pan glywn eiriau Iesu, mae tuedd ym mhob un ohonom i ddofi ei eiriau, eu glastwreiddio a'u haddasu i'n gwerthoedd blaenorol ni. Ac am gredu bod 'mab y saer' o Nasareth rywsut yn 'Fab y Dyn', yn 'Fab Duw'? Hyd heddiw, mae hyn yn 'dramgwydd' i lawer.

O ddechreuadau cyhoeddi'r efengyl i'r holl fyd mae eglwys Iesu Grist wedi sylweddoli bod ei neges yn 'dramgwydd', yn gyhoeddiad oedd, ac sydd, yn achosi sgandal. Dyna dystiolaeth yr Apostol Paul wrth y gynulleidfa yng Nghorinth. Roedd wedi dod i'w plith gan gyhoeddi, 'Crist wedi ei groeshoelio, yn dramgwydd i'r Iddewon ac yn ffolineb i'r cenhedloedd' (1 Corinthiaid 1:18 ymlaen).

Ac eto ...

Onid yw'r hyn a gyhoeddwyd ganddo amdano'i hun yn wir, ni fyddai gan ddisgyblion Iesu mo'r 'awdurdod' dros ysbrydion aflan, nac awdurdod i alw ar i

bobl edifarhau na'u hyfforddi yn eu ffyrdd, na'u hiacháu yn ei enw. Yn y genhadaeth gychwynnol hon gwelwn ficrocosm o genhadaeth yr eglwys ym mhob oes ac ym mhob man. Tystiwn i Iesu - ac yn y dystiolaeth gwelir bod pwyslais ariachad ac ar addysg yn ganolog, a bod hynny rywsut yn ennyn gwrthdaro a gwrthwynebiad grymoedd dieflig.

Profiad y proffwyd

Wrth ddisgrifio'i hun i'w gymrodyr, mae'n arwyddocaol fod Iesu'n defnyddio'r gair 'proffwyd' i'w ddisgrifio'i hun. Ar ei lefel symlaf, roedd Iesu'n datgan mai rhannu oraclau Duw ydoedd, a'i fod yn dwyn gair Duw i glyw ei bobl. Hyd yn oed ar y lefel symlaf hon, fe ddylai 'proffwyd' fod wedi cael gwrandawriad ac ystyriaeth i'w neges.

Ar yr ail lefel mae Iesu'n uniaethu ei hun â llinach o broffwydi a ddaeth â Gair Duw i'w pobl ym mhob cenhedlaeth (adn 4). Gofynnodd Eiseia, 'Pwy a gredai'r hyn a glywsom?' (Eiseia 53:1) Deallodd adeg ei gomisiynu mai negesybyddai ei wrandawyr yn ei chlywed, heb ei deall, oedd ei neges (Eiseia 6:9). Fel Eseciel, a gafodd ei anfon at 'blant wyneb-galed ac ystyfnig', daeth Iesu i'w gartref ei hun, i'w fyd ei hun, ac ni dderbyniwyd ei neges ganddynt.

Synnu a rhyfeddu

Synnu a wnaeth y dorf wrth wrando ar eiriau Iesu. Rhyfeddu a wnaeth Iesu at eu hanghrediniaeth.

Tybed beth, go iawn, sydd wedi newid mewn dau fileniwm? Yr un yw'r gair yn ei eglurder, ei awdurdod, a'i allu i dramgwyddo. Yr un yw gogoniant Iesu a'i allu i'n denu a pheri i ni dramgwyddo. Ac mor aml, yr un yw'n hymateb ninnau. Ar un llaw yr ydym yn synnu at rym digyfaddawd ei eiriau gan fynegi ein 'hanghrediniaeth' ddigyfaddawd i'w frenhiniaeth a'i awdurdod.

Gweddi

O Dduw, ein nodded a'n nerth, ymwelaist â'th bobl a dod i'th gartref dy hun yn dy Fab. Caniatâ i ninnau'r ddawn o fedru dy adnabod a'th groesawu di heddiw. Cadw ni rhag calon-galedwch. Cadw ni rhag ein hanghrediniaeth. Ac wrth dy groesawu i'n calonnau a'n capeli o'r newydd, rhyddha ein tafodau bloesg i'th foliannu a'th ddyrchafu. Arglwydd Iesu, drwy dy Ysbryd Glân, nesâ atom ni heddiw a'n galluogi i fod yn dystion fydd wedi ein cymhwyso i'th alwad di. Amen.

Emyn 287 - 'Mor beraidd i'r credadun ...'

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | hww@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru

 [CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru)

 [@CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)